Nodiadau Tramor

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cynnwys

Sut gaiff eich incwm tramor ei drethu?	**FN 2**
Incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU	**FN 2**
Rhyddhad credyd treth dramor	**FN 3**
Treth Ataliedig Arbennig (TAA)	**FN 4**
Incwm o ffynonellau tramor	**FN 5**
Llog ac incwm arall o gynilion tramor	FN 6
Difidendau o gwmnïau tramor	FN 6
Pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor ac ati	FN 9
Difidendau a holl incwm arall a dderbyniwyd gan berson sydd dramor	FN 11
Llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)	FN 11
Incwm o dir ac eiddo tramor	**FN 11**
Incwm a threuliau	FN 11
Cyfrifo elw a cholledion at ddibenion treth	FN 12
Crynodeb	FN 13
Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall	**FN 15**
Enillion cyfalaf – rhyddhad credyd treth dramor a Threth Ataliedig Arbennig	**FN 16**
Incwm ac enillion tramor eraill	**FN 16**
Rhestr o wledydd neu diriogaethau	**FN 19**

Bydd y nodiadau hyn yn eich cynorthwyo i gwblhau tudalennau *Tramor* eich ffurflen dreth. Nid ydynt yn ceisio esbonio popeth y gellir eu cofnodi ar y tudalennau hyn ond maent yn cynnwys y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin. Mae llawer mwy o wybodaeth ar gael ar ein taflenni cymorth sydd ar gael yn **www.hmrc.gov.uk** neu o'r Llinell Gyswllt Cymraeg.

Ni ddylech gynnwys yr eitemau canlynol ar y tudalennau *Tramor* ond dylid eu cynnwys ar dudalennau perthnasol eich ffurflen dreth yn lle hynny:

- nodwch incwm tramor a enillwyd gan eich busnes neu eich partneriaeth ar y tudalennau *Hunangyflogaeth* neu *Partneriaeth*
- nodwch unrhyw enillion cyfalaf trethadwy sy'n codi drwy waredu asedion tramor ar y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*
- nodwch incwm o gyflogaeth dramor ar y dudalen *Cyflogaeth*.
- dylid nodi incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ar y tudalennau *Eiddo yn y DU*.

Rhyddhad am dreth dramor a dalwyd

Os ydych wedi nodi symiau ar y tudalennau *Hunangyflogaeth* neu *Partneriaeth*, y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* neu'r tudalennau *Cyflogaeth*, ac rydych am hawlio Rhyddhad credyd treth dramor ar y symiau hynny (gweler tudalen FN 3), bydd angen i chi gwblhau tudalennau *Tramor* (gweler tudalen F 6).

Sut gaiff eich incwm tramor ei drethu

Y sail codi

I'r mwyafrif o bobl, codir treth ar incwm tramor yn y flwyddyn y caiff ei dderbyn neu y mae'n codi (fel arfer mae hyn yn golygu pan gaiff ei dalu i chi) p'un a'i dygir i'r DU ai peidio – gelwir hyn yn sail codi.

Mae'r nodiadau hyn yn esbonio sut i gwblhau tudalennau *Tramor* eich ffurflen dreth os talwch dreth ar eich incwm ac enillion byd-eang (**y 'sail codi'**)

Y sail trosglwyddo

Gall rhai pobl wneud cais i gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus ar sail arall. Gelwir hwn y sail trosglwyddo. Mae'r sail trosglwyddo yn ddull arall o drin treth sydd ar gael i'r bobl hynny sy'n preswylio yn y DU ac:

- nid yw eu domisil yn y DU, neu
- nid ydynt fel arfer yn preswylio yn y DU.

Argymhellir yn gryf eich bod yn darllen y llyfryn HMRC6 cyn penderfynu ynghylch gwneud cais mewn perthynas â threthiant ar y sail drosglwyddo.

Mae trethdalwyr y sail trosglwyddo yn agored i dreth y DU yn y ffordd arferol ar eu hincwm ac enillion sy'n deillio o'r DU. Ond maent yn agored i dreth y DU ar unrhyw symiau o incwm ac enillion tramor sy'n cael eu trosglwyddo i'r DU.

Nodyn 1 – gallwch hawlio eich bod yn cael eich trethu ar y sail trosglwyddo ar eich enillion tramor dim ond os ydych yn preswylio ond nid yw eich domisil yn y DU.

Nodyn 2 - os defnyddioch y sail trosglwyddo mewn blwyddyn dreth gynharach, bydd unrhyw incwm neu enillion tramor o'r flwyddyn honno, y trosglwyddwch yn hwyrach yn agored i dreth yn y flwyddyn y byddwch yn eu trosglwyddo gwaeth p'un a ddefnyddiwch y sail codi neu'r sail trosglwyddo ar gyfer y flwyddyn honno.

Nodyn 3 - nid yw'r sail trosglwyddo yn gymwys i enillion ar ddigwyddiadau trethadwy o dan bolisi yswiriant bywyd, blwydd-dal bywyd neu ar bolisïau adbrynu cyfalaf. Mae'r rhain yn agored i dreth ar y swm llawn sy'n codi yn y flwyddyn waeth p'un a chânt eu trosglwyddo i'r DU ai peidio.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â threthiant mewn perthynas â phreswylio, domisil a'r sail trosglwyddo yn y llyfryn HMRC6 *Residence, Domicile and the Remittance Basis* sydd ar gael yn **www.hmrc.gov.uk**

Os penderfynwch eich bod am dalu treth ar y sail trosglwyddo, bydd angen i chi ofyn i'r Llinell Gyswllt am gopi o Daflen Gymorth 264 *Remittance Basis* (mae'r daflen gymorth ar gael hefyd yn **www.hmrc.gov.uk**). Bydd angen copi arnoch hefyd o'r tudalennau *Residence, Domicile and the Remittance Basis* er mwyn gwneud cais i gael eich treth ar y sail trosglwyddo.

Argymhellir yn gryf eich bod yn darllen y llyfryn HMRC6 ac yn arbennig Pennod 5 cyn penderfynu ynghylch gwneud cais mewn perthynas â threthiant ar y sail trosglwyddo.

Incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU

Os oes gennych incwm sy'n deillio o'r tu allan i'r DU nad oeddech yn gallu ei ddwyn i'r DU, oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian cyfred tramor yn y wlad dramor, gallwch hawlio na ddylid trethu'r incwm na ellir ei drosglwyddo yn 2010-11. Nid yw hyn yn gymwys, mewn perthynas ag incwm neu fudd sy'n codi o ganlyniad i drosglwyddo asedion (byddwch yn gwybod os yw hyn yn gymwys i chi).

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 1 ***Os oeddech yn methu â throsglwyddo unrhyw ran o'ch incwm tramor i'r DU***

Os ydych yn hawlio bod gennych incwm na ellir ei drosglwyddo rhowch 'X' ym mlwch 1 a rhowch fanylion llawn am y wlad lle cododd yr incwm, y swm yn yr arian cyfred tramor, a'r dreth dramor a dalwyd, yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich ffurflen dreth (neu ar daflen ar wahân).

Incwm yn dod yn incwm y gellir ei drosglwyddo

Os ydych wedi hawlio'n flaenorol nad oedd yn bosibl trosglwyddo incwm tramor oherwydd nad oedd yn bosibl ei drosglwyddo ar y pryd a daeth yn bosibl ei drosglwyddo i'r DU am y tro cyntaf yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011, oherwydd er enghraifft, diddymwyd y rheolaethau cyfnewid, caiff ei drin fel petai'r incwm yn codi yn 2010-11. Rhaid i chi gynnwys yn eich ffurflen dreth Hunanasesiad unrhyw incwm y mae hwn yn gymwys iddo hyd yn oed os na chaiff ei drosglwyddo i'r DU. Dylai swm yr incwm ac unrhyw dreth dramor a godir arno gael ei drosi i sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid a oedd mewn grym ar yr adeg pan ddaeth yn bosib trosglwyddo'r incwm. Nodwch y manylion a'r symiau yn y blychau ar gyfer y math o incwm.

Rhyddhad credyd treth dramor

Os didynnwyd treth dramor o'ch incwm ac enillion tramor efallai y bydd yn bosibl i chi gael rhyddhad rhag trethiant dwbl. Fel arfer rhyddhad credyd treth dramor yw'r ffordd orau i gael rhyddhad o'r fath, ond os nad ydych am wneud cais neu os na allwch ei hawlio, gallwch ddidynnu'r dreth dramor wrth gyfrifo swm y dreth a'r enillion sy'n agored i dreth y DU. Ni allwch wneud y ddau.

Enghraifft 1

Derbyniodd John log o £1,000 a chafodd treth dramor o £150 ei didynnu.

Os codir treth y DU ar 20% ar yr incwm a'i fod yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, ei rwymedigaeth net fydd: (£200 llai £150) = £50.

Os nad yw'n hawlio rhyddhad credyd treth dramor, ond yn hawlio didyniad am y dreth dramor, bydd ei rwymedigaeth yn: (£1,000 llai £150) = £850 x 20% = £170.

Nid yw rhyddhad credyd treth dramor bob amser ar gael neu ar gael ar swm llawn y dreth dramor a dalwyd gennych. Mae rhyddhad yn amodol ar y rheolau canlynol:

- rhaid eich bod yn preswylio yn y DU
- rhaid i'r incwm godi yn y wlad dramor a chael ei drethu'n gywir o dan gyfraith y wlad dramor
- ni ddylai swm y rhyddhad credyd treth dramor fod yn fwy na threth y DU ar yr un eitem o incwm neu enillion
- pan fo Cytundeb Trethiant Dwbl yn bodoli rhwng y DU a'r wlad arall cyfyngir swm y dreth dramor sydd ar gael i dderbyn y rhyddhad i isafswm y dreth dramor sy'n daladwy o dan delerau'r Cytundeb. I weld p'un a oes Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU a'r diriogaeth dramor ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am *'DT Digest'*.
- os nad oes Cytundeb Trethiant Dwbl yn bodoli, neu os nad yw'r cytundeb yn cwmpasu'r dreth dramor arbennig honno, bydd rhyddhad ar gael dim ond os bydd y dreth yn cyfateb i Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU.

Cytundebau Trethiant Dwbl

Mae Cytundeb Trethiant Dwbl yn drefniant rhwng dwy diriogaeth sydd wedi ei gynllunio i osgoi'r sefyllfa pan allai'r un eitem o incwm neu ennill cael ei drethu

yn y ddau le – er enghraifft, yn y DU yn ogystal â'r diriogaeth lle cododd yr incwm neu'r ennill.

Nid yw treth a ddidynnir o ddifidendau yn y gwledydd isod yn gymwys am ryddhad credyd treth dramor. Y gwledydd yw:

Antigwa	Maleisia
Awstralia (difidendau wedi'u ffrancio yn unig)	Malta
Belize	Montserrat
Cyprus	Singapore
Guernsey	Y Gambia
Jersey	Ynys Manaw
Kiribati	

Er nad yw'r dreth ar gael ar gyfer rhyddhad credyd, gellir ei didynnu wrth gyfrifo swm y difidend sy'n agored i dreth y DU.

Blwch 2 ***Os ydych yn cyfrifo eich treth, nodwch gyfanswm y rhyddhad credyd treth dramor ar eich incwm***

Does dim rhaid i chi gyfrifo eich rhyddhad credyd treth dramor eich hun. Gwnawn hyn ar eich rhan os cwblhewch y blychau perthnasol a dychwelyd eich ffurflen dreth atom erbyn y dyddiad cau priodol. Gadewch y blwch hwn yn wag os nad ydych yn cyfrifo eich rhyddhad credyd treth tramor eich hun.

Os ydych am gyfrifo eich rhyddhad credyd treth dramor eich hun, bydd angen Taflen Gymorth 263 *Calculating foreign tax credit relief on income* arnoch i gyfrifo swm y rhyddhad. Nodwch gyfanswm y rhyddhad ym mlwch 2.

Trethdalwyr sail trosglwyddo
mae gwybodaeth ar y pwnc hwn yn Nhaflen Gymorth 264

Treth Ataliedig Arbennig (TAA)

Treth Ataliedig Arbennig (TAA) yw'r swm a gedwir yn ôl ar rai taliadau penodol i breswylwyr y DU gan rhai Gwladwriaethau sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd a rhai tiriogaethau perthynol a thiriogaethau trydydd parti o dan delerau Cyfarwyddeb Cynilo Ewropeaidd a chytundebau trydydd parti cyffelyb. Bydd y dreth hon yn ychwanegol at unrhyw dreth dramor a didynnwyd. Gweithredir TAA gan y tiriogaethau canlynol:

Andorra	Liechtenstein
Antilles yr Iseldiroedd	Lwcsembwrg
Awstria	Monaco
British Virgin Islands	San Marino
Gibraltar	Ynys Manaw
Guernsey	Ynysoedd Twrcs a Caicos
Jersey	Y Swistir

Pan ddidynnir TAA cewch eich trin fel petaech wedi talu swm cyfatebol o Dreth Incwm y DU yn y flwyddyn y cafodd ei ddidynnu. Gellir gosod hwn yn erbyn eich rhwymedigaeth ar gyfer y flwyddyn honno yn y DU neu gellir ei ad-dalu i chi os yw'r swm yn fwy na'r rhwymedigaeth honno.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Enghraifft 2

Mae Gerallt yn talu treth ar y sail codi ac yn derbyn llog o £800 o Jersey ar ôl didynnu Treth Ataliedig Arbennig (TAA) - gelwir y didyniad yn 'retention tax' yn Jersey.

Ar dudalen F2/F3 y Tudalennau *Tramor* nodwch:

Cod y wlad neu'r diriogaeth (tudalen F 2 colofn A)	JEY
Y swm cyn didynnu treth (Colofn B)	£1000
Y Dreth Ataliedig Arbennig (Colofn D)	£200

Incwm o ffynonellau tramor

Dylai pob cofnod ar dudalennau F2 a F3 fod mewn sterling y DU, ac nid yn yr arian cyfred tramor. Dylai eich incwm gael ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar yr adeg pan gododd yr incwm. Dylid cofnodi'r swm llawn yn y blychau perthnasol p'un a chafodd ei ddwyn i'r DU ai peidio.

Os nad ydych yn siŵr o'r gyfradd gyfnewid i'w defnyddio, gofynnwch eich cynghorydd treth neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Bydd y nodiadau a'r enghreifftiau canlynol yn eich cynorthwyo i gwblhau'r tudalennau hyn yn gywir:

- defnyddiwch res ar wahân ar gyfer pob gwlad
- os oes gennych fwy nag un ffynhonnell o'r un math o incwm o'r un wlad – er enghraifft mwy nag un cyfrif cynilo o'r un wlad - gallwch eu hadio at ei gilydd (oni bai fel eithriad cânt eu trin mewn ffordd wahanol)
- os nad oes gennych ddigon o le ar gyfer yr holl fanylion i'w cofnodi, dychwelwch atodlen ar wahân gan roi'r un wybodaeth ar gyfer pob incwm o'r un fath fel y dangosir ar dudalennau F 2 ac F 3. Ond cwblhewch y blychau Cyfanswm a welir ar dudalen F 3, gan gynnwys unrhyw symiau sydd ar atodlenni ar wahân.



Colofn A

Nodwch god y wlad ar gyfer y wlad yr oedd yr eitem o incwm yn deillio ohoni. Mae codau'r gwledydd neu'r tiriogaethau'n yn dechrau ar dudalen FN 19 y nodiadau hyn.



Colofn B

Nodwch swm yr incwm cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig.



Colofn C

Nodwch mewn sterling, swm y dreth dramor a dalwyd ar yr incwm a nodwyd yng ngholofn B.



Colofn D

Nodwch swm unrhyw Dreth Ataliedig Arbennig a ddidynnwyd o'r incwm.
Os didynnwyd Treth Incwm y DU o'r incwm, dylid cynnwys hwn yma hefyd a rhowch fanylion pellach yn y blwch 'Unrhyw fanylion arall' ar eich ffurflen dreth.



Colofn E

Os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer yr incwm hwn, rhowch 'X' yn y blwch hwn – fel arfer mae'n fanteisiol i chi ond gweler tudalen FN 3 am ragor o wybodaeth.



Colofn F

Nodwch y swm trethadwy. Os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, dylai'r swm yma fod yr un peth â'r ffigur yng ngholofn B. Os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor dylai'r swm fod y swm yng ngholofn B llai unrhyw swm yng ngholofn C.

Llog ac incwm arall o gynilion tramor

Dylech gynnwys:

- llog o gyfrifon banc tramor, stociau benthyg cwmnïau tramor, neu o fenthyciadau i unigolion neu gyrff eraill y tu allan i'r DU
- llog o ymddiriedolaethau uned a chronfeydd buddsoddi tramor eraill. Bydd y daleb a roddir gan yr ymddiriedolaeth unedol neu'r gronfa yn dangos y llog a dalwyd, ac unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig a dalwyd. Gofynnwch i weinyddwr yr ymddiriedolaeth neu'r gronfa am daleb os nad oes un gennych
- incwm o flwydd-dal oes a brynwyd. Bydd yr incwm yn rhan yn unig o'r taliad a gewch – gwiriwch y dystysgrif neu unrhyw nodyn arall a gewch gan dalwr eich blwydd-dal. Peidiwch â rhoi gweddill y taliad ar eich ffurflen dreth. Nid yw blwydd-dal oes a brynwyd yn flwydd-dal ymddeol, nac ychwaith yn ganlyniad cyfraniadau a dalwyd i gynllun pensiwn personol
- unrhyw incwm arall o gynilion tramor
- gwarantau incwm cronedig gan gynnwys yr holl warantau sy'n dwyn llog. Nid oes elw'n codi ac nid oes colled ychwaith ar gyfer 2010-11 os nad oedd gwerth nominal yr holl warantau incwm cronedig a oedd gennych ar unrhyw adeg yn 2010-11 a 2009-10 yn fwy na £5,000. Os yw'r gwerth yn fwy na £5,000 bydd yn rhaid i chi gyfrifo'r elw neu'r colledion. Mae Taflen Gymorth 343 *Accrued Income Scheme* yn rhoi fwy o wybodaeth.

Blychau 3 a 4

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ffigurau a gofnodwyd yng ngholofnau D a F gan gynnwys unrhyw swm ar atodlenni ar wahân gan roi'r cyfansymiau ym mlychau 3 a 4.

Difidendau o gwmnïau tramor

Trethdalwyr sail trosglwyddo
mae gwybodaeth ar y pwnc hwn yn Nhaflen Gymorth 264

Dylech gynnwys:

- difidendau o gwmnïau tramor. Bydd eich taleb ddifidend yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch
- unrhyw ddosbarthiadau eraill o ffynonellau tramor, er enghraifft asedion cwmni a ryddhawyd i'w gyfranddalwyr (megis cyfranddaliadau y mae'n ei dal mewn cwmni arall). Nodwch werth asedion o'r fath ar ddyddiad y dosbarthiad. Os ydych yn ansicr gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth am gymorth.

Peidiwch â chynnwys:

- dosbarthiadau a wnaed yn ystod datodiad cwmni tramor
- dosbarthiadau sy'n golygu dychwelyd eich buddiant cyfalafol mewn cwmni tramor
- dosbarthiadau a wnaed gan gwmni tramor ar ffurf ei stociau a'i gyfranddaliadau ei hun. (Nid yw hyn yn cynnwys cyfranddaliadau a gafwyd o dan unrhyw fath o gynllun ail fuddsoddi difidendau. Er enghraifft, pan fyddwch wedi gofyn i ddefnyddio difidend ar ffurf arian parod i brynu cyfranddaliadau ychwanegol; dylid cynnwys y rhain yn y difidendau o gwmnïau tramor)
- difidendau stoc o gwmnïau tramor neu fonysau ar ffurf cyfranddaliadau o ddyroddiad difidend stoc a wnaed gan gwmni tramor.

Pan na chafodd dosbarthiad ei wneud ar ffurf cyfranddaliadau ac rydych wedi derbyn opsiwn gan gwmni tramor i dderbyn arian parod yn lle cyfranddaliadau, bydd yr arian parod yn agored i dreth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

O 22 Ebrill 2009, cyflwynwyd rheolau newydd mewn perthynas â difidendau o gronfeydd alltraeth. Os yw'r gronfa alltraeth y derbynioch daliad ohoni wedi buddsoddi'n helaeth mewn asedion sy'n dwyn llog, cewch eich trin fel petaech wedi derbyn llog ac nid difidend neu ddosbarthiad arall (gweler Nodyn 1 ar dudalen FN 8). Mae cronfa alltraeth yn gynllun buddsoddi alltraeth cyfunol a all fod ar ffurf cwmni dibreswyl. Os ydych yn ansicr gofynnwch i'ch cynghorydd ariannol neu eich brocer p'un a yw'r cyfranddaliadau sydd gennych mewn cronfa alltraeth.

Blychau 5 a 6

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ffigurau a gofnodwyd yng ngholofnau D a F gan gynnwys unrhyw swm ar atodlenni ar wahân, a rhowch y cyfansymiau ym mlychau 5 a 6.

Sail trosglwyddo ar gyfer blynyddoedd cynharach

Os ydych wedi trosglwyddo difidendau tramor a gododd mewn blwyddyn gynharach i'r DU yn ystod 2010-11, ac roeddech yn agored i dreth ar y sail trosglwyddo, peidiwch â dangos y symiau hyn yn yr adran ar dudalennau F 2 a F 3 o dan y pennawd 'Difidendau gan gwmnïau tramor'. Yn lle hynny, nodwch swm y difidendau tramor a drosglwyddwyd i'r DU yn y blychau ar dudalennau F 2 ac F3 yn yr adran o dan y pennawd 'Llog ac incwm arall o gynilion tramor' a chynhwyswch y cyfanswm ym mlwch 4.

Oherwydd nad yw difidendau o flynyddoedd cynharach yn cael eu dangos yn yr adran o'ch ffurflen dreth sy'n delio â difidendau tramor, os ydych yn hawlio credyd treth ar ddifidend tramor a dalwyd i chi ar ôl 5 Ebrill 2008, dylech ddefnyddio'r Daflen Waith isod i gyfrifo'r symiau i'w rhoi yng ngholofn B ar dudalen F 2.

I wneud cais am gredyd treth bydd angen i chi wneud addasiad i flwch 2 ar dudalen F 1. Llenwch y Daflen Waith isod i gyfrifo'r addasiad. Ychwanegwch hwn at flwch 2. Nodwch yn y bwlch 'Unrhyw wybodaeth arall' (ar dudalen TR6 eich ffurflen dreth) cyfanswm y difidendau a gynhwyswyd ym mlwch 4 a'r swm nad yw'n cymhwyso ar gyfer credyd treth y DU.

Taflen Waith ar gyfer difidendau nad ydynt o'r DU sy'n cymhwyso ar gyfer credyd treth

Swm a gafwyd mewn gwirionedd	**A**	£
Treth dramor a ddidynnwyd cyn ei dderbyn	**B**	£
Cyfanswm – blwch A + blwch B	**C**	£
Blwch C x 100/90 – copïwch i golofn B ar dudalen F 2	**D**	£
Blwch D x 10% – *ychwanegwch at y swm ym mlwch 2*	**E**	£

Credydau treth ar ddifidendau

Mae gan breswylwyr y DU sy'n derbyn difidendau o gwmnïau tramor yr hawl i gael credyd treth ar ddifidendau sy'n hafal i ⅛ y difidend yn y mwyafrif o achosion. Mae'r un peth yn wir pan dderbynnir y difidendau gan ymddiriedolwyr ond cânt eu trin fel eich incwm chi oherwydd eich bod yn setlwr yr ymddiriedolaeth, neu cewch eich trethu ar yr incwm oherwydd bod gennych hawl annewisiadol i incwm yr ymddiriedolaeth.

O 22 Ebrill 2009, rhaid i chi fodloni un o'r profion canlynol er mwyn cymhwyso am y credyd treth o ⅛, sef:

1 nid yw'r cwmni sy'n talu'r difidend yn gronfa alltraeth ac rydych yn berchen ar lai na 10% o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd, neu unrhyw ddosbarth o gyfranddaliad, neu
2 mae'r cwmni a dalodd y difidend i chi yn 'gronfa alltraeth' sy'n seiliedig ar ecwiti (gweler 'Nodyn 1 isod ynglŷn â dosbarthiadau gan gronfeydd alltraeth), neu
3 nid yw'r cwmni sy'n talu'r difidend yn gronfa alltraeth ac mae wedi ei sefydlu at ddibenion treth mewn tiriogaeth lle mae gan y DU Gytundeb Trethiant Dwbl (CTD) sy'n cynnwys erthygl 'peidio â gwahaniaethu' (ceir rhestr o'r tiriogaethau hyn ar dudalen FN 19 i FN 21).

O dan yr amod hwn nid yw credyd treth y difidend ar gael pan:

- nad yw'r CTD yn cynnwys erthygl 'peidio â gwahaniaethu' (gweler 'Nodyn 2' isod)
- mae'r difidend yn un o gyfres a delir fel rhan o gynllun mantais treth ac nid yw unrhyw gwmni sy'n talu difidend sy'n un o'r gyfres honno, wedi ei sefydlu mewn tiriogaeth sy'n cymhwyso. (Mae cynllun mantais treth yn gynllun pan mai'r unig ddiben yw galluogi person i gael y credyd treth neu unrhyw ryddhad arall rhag treth.)
- mae'r difidendau yn deillio o rai 'cwmniau a eithrir' penodol (gweler 'Nodyn 3' isod).

Dylech ymgynghori â'ch cynghorydd treth os ydych yn ansicr ynglŷn â hyn.

Nodyn 1

O 22 Ebrill 2009 cyflwynwyd newidiadau pwysig i'r ffordd y caiff difidendau o gronfeydd alltraeth sydd wedi buddsoddi'n bennaf mewn asedion sy'n dwyn llog eu trin at ddibenion treth. Pan fo mwy na 60% o asedion mewn cronfa alltraeth ar ffurf asedion sy'n dwyn llog (neu rhai tebyg yn economaidd), caiff unrhyw ddosbarthiad a gewch ei drin fel taliad o log blynyddol (gweler 'Llog ac incwm arall o gynilion tramor' ar dudalen FN 6 y nodiadau hyn). Ni fyddwch yn cymhwyso ar gyfer credyd treth difidend a bydd y cyfraddau treth a ddefnyddir yn rhai a ddefnyddir ar gyfer llog.

Nodyn 2

Nid yw'r CTD gyda'r tiriogaethau canlynol yn cynnwys erthygl 'peidio â gwahaniaethu':

Antigwa a Barbwda	Malaŵi
Belize	Montserrat
Brunei	St. Kitts a Nevis
Grenada	Sierra Leone
Guernsey	Ynys Manaw
Jersey	Ynysoedd Solomon
Kiribati	Tuvalu

Nodyn 3

Mae'r cwmnïau a eithrir yn cynnwys:

- Barbados - cwmnïau a sefydlwyd o dan Ddeddf(au) Cwmnïau Busnes Rhyngwladol
- Cyprus - cwmnïau sydd â hawl i gael buddiannau treth arbennig o dan ddeddfiadau amrywiol Cyprus

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

- Jamaica - cwmnïau a sefydlwyd o dan ddeddfiadau mewn perthynas â Chwmnïau Busnes Rhyngwladol a Chwmnïau Ariannol Rhyngwladol
- Lwcsembwrg - cwmnïau daliannol a sefydlwyd o dan Ddeddfau 1929 a 1937 Lwcsembwrg
- Maleisia - cwmnïau sy'n cynnal gweithgaredd busnes alltraeth o dan Ddeddf Gweithgaredd Busnes Alltraeth Labuan 1990
- Malta - cwmnïau sydd â hawl i gael buddiannau treth arbennig o dan ddeddfiadau amrywiol.

Enghraifft 3

Mae preswyliwr y DU yn derbyn difidend o gwmni tramor. Mae'r difidend yn £900, gan gynnwys treth ataliedig. Cyfradd y dreth ataliedig yw 15%

Difidend (gan gynnwys y dreth ataliedig o £135 (£900 x15%)			£ 900
Credyd Treth ($^1/_9$)			£ 100
Incwm gros at ddibenion treth			£1,000
Treth y DU a godir ar y gyfradd ddifidend uwch (£1,000 x 32.5%)		£ 325	
Llai:	Treth Ataliedig ar 15%	£ 135	
	Credyd Treth	£ 100	
Rhwymedigaeth net y DU		£ 90	

Blwch 7 ***Swm a gynhwyswyd ym mlwch 6 nad yw'n gymwys ar gyfer credyd treth y DU***

Os oes gennych incwm difidend tramor nad yw'n gymwys am y credyd treth ar ddifidendau, bydd angen i chi gwblhau'r blwch hwn. Gadewch y blwch yn wag os yw eich holl ddifidendau tramor yn gymwys am gredyd treth.

Pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor ac ati

Cwblhewch yr adran hon os cawsoch bensiwn neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol o dramor ar unrhyw adeg yn ystod 2010-11. Dylech gynnwys hefyd unrhyw bensiynau neu flwydd-daliadau a dalwyd yn y DU ond ar ran darparwr pensiwn tramor sydd y tu allan i'r DU. Peidiwch â chynnwys blwydd-daliadau bywyd a brynwyd yma; dylech gynnwys incwm o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd yn yr adran ar gyfer llog ac incwm arall o gynilion tramor.

Mae rhai cynlluniau pensiwn tramor wedi eu cofrestru yn y DU. Ni ddylai pensiynau o gynlluniau o'r fath gael eu cynnwys ar y tudalennau *Tramor* ond yn hytrach yn adran bensiynau, blwydd-daliadau a budd-daliadau eraill y Wladwriaeth a gafwyd o'r DU (tudalen TR3) eich ffurflen dreth. Bydd gweinyddwr y cynllun yn gallu dweud wrthych p'un a yw hyn yn gymwys i'r cynllun pensiwn.

Os disgwyliwch ddechrau derbyn pensiwn neu flwydd-dal cyn 6 Ebrill 2011, nodwch fanylion y darparwr a'r swm blynyddol yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', ar eich ffurflen dreth. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gael eich cod treth TWE yn gywir ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Didyniad o 10%

Trethdalwyr sail trosglwyddo
mae gwybodaeth ar y pwnc hwn yn Nhaflen Gymorth 264

Gallwch ddidynnu 10% o werth y pensiynau tramor, blwydd-daliadau a phensiynau nawdd cymdeithasol gan adael dim ond 90% o'r swm a gewch yn agored i dreth yn y DU.

Os ydych yn hawlio'r didyniad o 10% neu unrhyw ryddhad sy'n ddyledus (gweler isod), nodwch yng ngholofn F y swm yng ngholofn B llai:

- y didyniad o 10% neu'r rhyddhad, ac
- os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, unrhyw dreth dramor a nodwyd yng ngholofn C. Os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor rhowch 'X' yng ngholofn E.

Mae'n bosibl bod gennych bensiwn nad yw'n agored i dreth yn y DU oherwydd telerau'r cytundeb trethiant dwbl. Er mwyn hawlio nad yw eich pensiwn yn agored i dreth yn y DU, rhowch fanylion llawn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich ffurflen dreth (neu ar ddalen ar wahân) ynghylch talwr y pensiwn a nodwch y cytundeb trethiant dwbl perthnasol yr ydych yn dibynnu arno. Gweler y *DT Digest* yn **www.hmrc.gov.uk** am wybodaeth ynghylch telerau Cytundebau Trethiant Dwbl a drefnwyd gan y DU.

Rhyddhad

Mae rhai pensiynau tramor wedi ei heithrio'n gyfan gwbl neu'n rhannol rhag treth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pensiynau gweddwon rhyfel a rhai pensiynau a delir i ddibynyddion eraill personél ymadawedig y lluoedd arfog a'r Llynges Fasnachol. Mae Taflen Gymorth 310 *War widow's and dependant's pensions* yn rhoi fwy o wybodaeth
- pensiynau tramor a ddyfarnwyd i gyn weithwyr oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu anaf yn y gwaith, pan fo'r pensiwn yn uwch na'r hyn y byddai wedi bod petaech wedi ymddeol ar yr un adeg am resymau iechyd nad oeddynt yn ymwneud â'ch gwaith. Nid yw'r swm ychwanegol yn drethadwy
- pensiynau a blwydd-daliadau sy'n daladwy o dan gyfreithiau'r Almaen neu Awstria
  - i ddioddefwyr erledigaeth y Natsïaid
  - i bensiynwyr a gafodd eu hatal gan erledigaeth rhag gwneud cyfraniadau nawdd cymdeithasol arferol ac a gafodd gredyd am y cyfraniadau nas talwyd, neu a brynodd blynyddoedd ychwanegol
  - pan fo caniatáu pensiwn yn dibynnu ar yr awdurdod sy'n caniatáu'r pensiwn yn arfer disgresiwn.

Os ydych yn ansicr p'un a yw eich pensiwn wedi ei eithrio rhag treth y DU, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth.

Os dechreusoch dderbyn pensiwn o'r Almaen neu o Awstria yn ystod 2010-11 (gweler uchod), dylech anfon copi atom o'r dyfarniad pensiwn ('Bescheid') gyda'ch ffurflen dreth.

Ôl-daliadau pensiwn tramor

Os oedd swm y pensiwn a gawsoch yn 2010-11 yn cynnwys taliadau mewn perthynas â blwyddyn dreth gynharach, gallwch wneud cais i daenu'r taliadau hynny yn ôl i'r flwyddyn y maent yn perthyn iddi gyhyd â bod y pensiwn yn cael ei drethu ar y sail codi. Gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth os credwch y gallai hyn fod o fantais i chi.

Budd-daliadau nawdd cymdeithasol

Dylech eithrio budd-daliadau tramor sy'n cyfateb i fudd-daliadau canlynol y DU:

- Budd-dal Analluogrwydd (pan wnaed y dyfarniad am gyfnod o analluogrwydd a ddechreuodd cyn 13 Ebrill 1995)
- Budd-dal Analluogrwydd a delir yn ystod 28 wythnos gyntaf eich analluogrwydd
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Mamolaeth
- Lwfans Gwarcheidwad
- Budd-dal Plant.

Dylech gynnwys pob budd-dal tramor arall. Gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth os ydych yn ansicr p'un a ddylid cynnwys budd-dal ai peidio.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blychau 8 a 9

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ffigurau a gofnodwyd yng ngholofnau D a F gan gynnwys unrhyw swm ar atodlenni ar wahân, a rhowch y cyfansymiau ym mlychau 8 a 9.

Difidendau a phob incwm arall a gafwyd gan berson sydd dramor

Blychau 10 i 13

Os ydych wedi trosglwyddo, neu wedi cymryd unrhyw ran yn nhrosglwyddiad asedion, ac o ganlyniad daeth incwm yn daladwy i berson sydd dramor, efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau'r blychau hyn. Dylid nodi pob eitem sy'n drethadwy fel incwm o dan ddarpariaethau trosglwyddo asedion yn yr adran hon yn unig. Mae mwy o fanylion ynglŷn â sut i gwblhau'r blychau hyn yn Nhaflen Gymorth 262 *Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts*.

Llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Trethdalwyr sail trosglwyddo
mae gwybodaeth ar y pwnc hwn yn Nhaflen Gymorth 264

O 22 Ebrill 2009 bu newid yn nhriniaeth llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr AEE. Os cewch incwm drwy osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu ar sail fasnachol yn yr AEE gallwch hawlio'r un rhyddhad ag sy'n gymwys i lety gwyliau wedi'i ddodrefnu ar sail fasnachol yn y DU. Os ydych yn gosod llety gwyliau cymwys yn yr AEE ac os ydych am hawlio rhyddhad sydd ar gael ar hyn o bryd o dan reolau llety gwyliau wedi'i dodrefnu, cwblhewch dudalen *Eiddo yn y DU* mewn perthynas â'r llety hwnnw.

Os ydych am hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer unrhyw dreth dramor a dalwyd, dylech gwblhau'r adran o dan y pennawd 'Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall' ar dudalen F 6 y tudalennau *Tramor*.

Incwm o dir ac eiddo dramor

Rydych yn agored i dreth ar y swm llawn o incwm rhent tramor am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011, p'un a ddygwch yr incwm i'r DU ai peidio.

Cwblhewch flychau 14 i 24:
- os mai dim ond un eiddo tramor sydd gennych ar osod, neu
- os oes gennych fwy nag un ond maent i gyd yn yr un wlad a gellir trosglwyddo'r holl incwm, neu
- os oes gennych fwy nag un ac ni ddidynnwyd treth dramor o unrhyw incwm a gellir trosglwyddo'r holl incwm.

Fel arall bydd angen i chi wneud copi o dudalennau F 4 a F 5 a chwblhau blychau 14 i 24 ar gyfer pob eiddo ar osod dramor (er enghraifft os oes gennych fwy nag un eiddo tramor ar osod ac maent mewn gwledydd gwahanol a didynnwyd rhywfaint o dreth dramor o'r incwm). Os na ellir trosglwyddo unrhyw incwm sy'n deillio o osod eiddo dramor, darllenwch y nodiadau ar dudalennau FN 2 a FN 3.

Rhaid i chi gwblhau colofnau A i F a blychau 25 i 32 fel y bo'n briodol hefyd (gweler y nodiadau ar dudalennau FN 14 a FN 15).

Incwm a threuliau

Trethdalwyr sail trosglwyddo
mae gwybodaeth ar y pwnc hwn yn Nhaflen Gymorth 264

Blwch 14 ***Cyfanswm y rhenti a derbyniadau eraill (ac eithrio premiymau trethadwy am ganiatáu prydles)***

Dylech gynnwys swm llawn unrhyw rent neu dderbyniadau eraill a gewch o unrhyw hawliau neu fuddiannau sydd gennych mewn tir neu eiddo a leolwyd dramor, ond eithriwch unrhyw bremiymau trethadwy. Nodwch y rhain ym mlwch 16.

Blwch 16 *Premiymau a dalwyd am ganiatáu prydles*

Os yw'r rhent o'ch busnes gosod yn cynnwys premiymau a dalwyd am ganiatáu prydles a chyfandaliadau eraill ac ati, a roddwyd mewn perthynas â'r hawl i feddiannu eiddo, bydd y taliadau hyn yn agored i dreth ar sail arbennig. Ceir mwy o wybodaeth gan gynnwys Taflen Waith ar dudalennau UKPN 7 yn *Nodiadau eiddo yn y DU* sydd ar gael yn **www.hmrc.gov.uk** neu drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Cymraeg.

Blwch 17 *Treuliau eiddo (rhent, atgyweiriadau, ffioedd cyfreithiol, cost y gwasanaethau a ddarparwyd)*

Yn gyffredinol gallwch hawlio costau cynnal eich busnes gosod eiddo fel didyniad ond ni allwch hawlio unrhyw gostau cyfalaf fel treuliau'r eiddo. Mae'r rhain yn dreuliau sy'n gysylltiedig â phrynu neu werthu, neu welliannau, ychwanegiadau a newidiadau, i dir neu eiddo, cyfarpar, eitemau dodrefnu neu ddodrefn. Ond efallai y gallech hawlio lwfansau cyfalaf (gweler isod) neu ddidyniad adnewyddu (gweler tudalen FN 13) ar gyfer y costau cyfalaf hyn.

Dylech gynnwys holl dreuliau caniataol eich eiddo. Gallai treuliau caniataol gynnwys:

- rhenti, trethi, yswiriant, rhent tir ac ati
- atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo
- adnewyddiadau – er ni allwch hawlio'r rhain yn ogystal â lwfansau cyfalaf neu'r lwfans traul o 10% (gweler y nodiadau ar gyfer blwch 23 ar dudalen FN 13)
- llog a thaliadau ariannol eraill
- ffioedd cyfreithiol, rheolaeth a ffioedd proffesiynol eraill
- costau gwasanaethau a ddarparwyd, gan gynnwys cyflogau
- treuliau eraill yr eiddo.

Ni allwch ddidynnu:

- treuliau a dalwyd mewn cysylltiad â gosod neu isosod eiddo am gyfnod sy'n hwy nag un flwyddyn am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys treuliau cyfreithiol fel costau llunio prydles, ffioedd asiantau a thir fesurwyr a chomisiwn
- unrhyw gostau yn ymwneud â chytuno a thalu premiymau ar adnewyddu prydles
- ffioedd ar gyfer caniatâd cynllunio neu gofrestru teitl wrth brynu eiddo.

Ceir mwy o fanylion yn *Nodiadau eiddo yn y DU* neu'r *Property Income Manual*. Mae'r ddau ar gael yn **www.hmrc.gov.uk**

Cyfrifo elw a cholledion at ddibenion treth

Blwch 19 *Addasiad am ddefnydd preifat*

Nid yw treuliau personol yn ganiataol fel didyniad busnes, felly os ydych wedi cynnwys unrhyw symiau nad oeddynt yn gyfan gwbl ar gyfer y busnes gosod ym mlwch 17, nodwch y gyfran breifat (di-fusnes) yma. Er enghraifft, os cafodd yr eiddo ei osod am wyth mis yn unig mewn blwyddyn ac rydych yn ei ddefnyddio eich hun am y pedwar mis arall, gallech gynnwys y gost flynyddol lawn am yswirio'r eiddo ym mlwch 17. Os gwnewch hyn dylech gynnwys y gost difusnes ar gyfer y pedwar mis ym mlwch 19.

Blwch 20 *Taliadau mantoli*

Gallai addasiad godi a elwir yn dâl os gwerthoch neu os rhoddoch am ddim neu os peidioch â defnyddio eitem yn eich busnes y gwnaethoch hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, yn ystod y flwyddyn. Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn esbonio hyn.

Blwch 21 *Lwfansau cyfalaf ar gyfer offer a cherbydau*

Ni allwch ddidynnu'r gost o brynu, newid, adeiladu, gosod neu wella asedion 'sefydlog' megis eiddo, cyfarpar, neu beiriannau. Ni allwch ychwaith hawlio dibrisiant

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

neu golledion pan waredir asedion o'r fath. Yn lle hynny gallwch hawlio lwfansau cyfalaf sy'n gostwng eich elw (neu'n cynyddu'r golled). Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn rhoi fwy o fanylion.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf am unrhyw osodiadau preswyl wedi'u dodrefnu.

Blwch 22 *Lwfans arbed ynni i'r landlord*

Gallwch wneud cais am osod:
- defnydd i ynysu'r llofft, llawr, waliau ceudod neu waliau solet
- defnydd selio rhag drafft ac ynysu systemau dŵr poeth

mewn eiddo preswyl tramor sydd ar osod. Yr uchafswm y gallwch hawlio o gyfanswm y gwariant ar yr eitemau hyn yw £1,500 ar gyfer pob adeilad ar osod.

Os ydych yn berchen ar yr eiddo ar osod ar y cyd gydag eraill, ac mae cyfanswm y gwariant ar yr eiddo ar osod yn fwy na £1,500, gallwch hawlio eich cyfran chi o'r £1,500 yn unig.

Blwch 23 *Lwfans traul o 10%*

Os ydych yn gosod llety preswyl wedi'i ddodrefnu (er enghraifft tŷ neu fflat) ni allwch hawlio lwfans cyfalaf ar beiriannau, dodrefn neu eitemau dodrefnu a gyflenwyd, neu ar unrhyw osodiadau sy'n rhan o'r adeilad. Yn lle hynny gallwch hawlio didyniad adnewyddu mewn perthynas ag adnewyddu eitemau o'r fath ym mlwch 12. Neu gallwch hawlio'r lwfans traul o 10% ym mlwch 23. Ond ni allwch hawlio'r ddau.

Mae'r lwfans traul yn gyfwerth â 10% o'r rhenti net ar ôl didynnu taliadau neu wasanaethau y byddai tenant fel arfer yn eu talu, ond sydd mewn gwirionedd yn cael eu talu gennych chi (er enghraifft trethi lleol).

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer llety preswyl wedi'i ddodrefnu.

Crynodeb

Bydd angen i bawb sydd ag incwm o dir ac eiddo tramor gwblhau'r adran hon waeth p'un a ydynt yn cael eu trethu ar y sail codi neu'r sail trosglwyddo. Yr unig eithriad i hyn yw os byddwch wedi hawlio'r sail trosglwyddo ond heb drosglwyddo unrhyw beth yn ystod y flwyddyn (gweler Taflen Gymorth 264 *Remittance basis*).

Rhaid i chi gwblhau'r adran 'Crynodeb' p'un a ydych wedi cwblhau un dudalen yn unig ar gyfer incwm a threuliau neu mwy nag un.

Os gwnaethoch gwblhau dim ond un gyfres o flychau 14 i 24, copïwch y ffigur o flwch 24 i flwch 25 a chwblhewch y colofnau A i F fel y bo'n briodol ac yn unol â'r cyfarwyddiadau isod. Os gwnaethoch gwblhau mwy nag un gyfres o flychau 14 i 24 bydd angen i chi grynhoi elw a cholledion eich holl eiddo ar osod i gyfrifo'r cyfanswm cyflawn. Os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor bydd angen i chi ddynodi swm treth y DU a briodolir i bob eiddo penodol. Bydd angen cyfrifiannau elw a cholled ar wahân ar gyfer pob eiddo.

Colledion

Dylid cwblhau blychau 26, 27, 31 a 32 yn unig mewn perthynas â cholledion gan yr unigolion hynny sy'n talu treth ar y sail codi.

Os oes colledion ar gael ac rydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, dylech ddidynnu'r colledion yn y drefn sydd fwyaf manteisiol i'ch cais chi. Os ydych yn cyfrifo eich cais am ryddhad credyd treth dramor, gallwch ddod o hyd i enghraifft o hyn yn ein *Property Income Manual* yn PIM 4702 (ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch drwy'r rhestr o lawlyfrau).

Colofn A

Nodwch god y wlad lle mae'r eiddo wedi ei leoli. Mae codau'r gwledydd neu'r tiriogaethau'n dechrau ar dudalen FN 19 y nodiadau hyn. (Os oes gennych eiddo mewn mwy nag un wlad ond rydych yn cwblhau un gyfres o flychau 14 i 24 yn unig, nodwch god y wlad yr eiddo cyntaf yng ngholofn A a'r codau ar gyfer y lleill yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' yn eich ffurflen dreth.)

Colofn B

Nodwch yr elw neu'r golled o'r eiddo ar osod.

Colofn C

Nodwch swm unrhyw dreth dramor a dalwyd ar yr incwm a gafwyd o'r eiddo.

Colofn D

Nodwch yma unrhyw dreth y DU a ddidynnwyd.

Colofn E

Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am hawlio rhyddhad credyd treth dramor.

Colofn F

Os ydych wedi hawlio rhyddhad credyd treth dramor, ac mae elw yng ngholofn B copïwch y ffigur yng ngholofn B yma. Os oes elw a cholledion o fwy nag un eiddo tramor, didynnwch unrhyw golledion o elw yn y drefn fwyaf manteisiol i chi ar gyfer unrhyw gais am ryddhad credyd treth dramor, cyn nodi swm net yr elw o bob eiddo (ar ôl colledion) yng ngholofn F. Os oes colled yn codi ar un eiddo tramor, neu os oes colledion net o unrhyw eiddo, gadewch y blychau yng ngholofn F yn wag.

Os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth, dylech nodi'r swm yng ngholofn B llai unrhyw swm yng ngholofn C.

Blwch 26 ***Cyfanswm y golled a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach***

Nodwch yma gyfanswm y colledion o flynyddoedd cynharach nas defnyddiwyd sydd ar gael i'w didynnu o gyfanswm eich elw neu eu hychwanegu at gyfanswm eich colled. Dyma'r ffigur ym mlwch 32 eich tudalennau *Tramor* ar gyfer 2009-10.

Blwch 27 ***Cyfanswm yr elw trethadwy***

Os mai elw yw'r hyn a gofnodwyd ym mlwch 25, didynnwch unrhyw golledion nas defnyddiwyd sydd ym mlwch 26 ac rydych am eu gwrthbwyso yn erbyn elw (hyd at y swm ym mlwch 25) o'r ffigur ym mlwch 25 a nodwch y canlyniad yma. Gadewch flwch 27 yn wag os yw'r ffigur ym mlwch 25 yn negyddol (colled).

Blychau 28 a 29

Nodwch gyfanswm unrhyw dreth yr ydych yn hawlio credyd ar ei chyfer yn y blwch perthnasol, gan gynnwys unrhyw symiau a gofnodir ar atodlen ar wahân.

Blwch 30 ***Cyfanswm trethadwy***

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ffigurau a nodwyd yng ngholofn F, gan gynnwys rhai ar unrhyw atodlen ar wahân, ac yna didynnwch unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen a gynhwyswyd ym mlwch 26 ac sydd i'w gwrthbwyso yn erbyn y cyfanswm. Rhowch y canlyniad ym mlwch 30 (nodwch '0' os yw'r canlyniad yn negyddol).

Blwch 31 ***Colled a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm***

Mewn rhai amgylchiadau prin gallwch hawlio bod y golled o'ch incwm rhent yn cael ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm eich incwm am 2010-11. Gallwch wrthbwyso'r golled dim ond os yw'n codi o ganlyniad i geisiadau am lwfansau cyfalaf (ac mae eich lwfansau cyfalaf ym mlwch 21 yn fwy na'ch taliadau mantoli ym mlwch 20).

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Mae'r golled y gellir ei gwrthbwyso wedi ei chyfyngu i'r isaf o:
- swm unrhyw lwfans cyfalaf ym mlwch 21, ar ôl didynnu unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 20, neu
- swm y golled ym mlwch 24, neu
- swm eich incwm arall.

Nodwch y swm rydych am ei wrthbwyso ym mlwch 31.

Blwch 32 ***Cyfanswm y golled i'w chario ymlaen i'r flwyddyn ddilynol***

Os gwnaethoch elw net (mae swm positif ym mlwch 25), nodwch ym mlwch 32 gyfanswm y golled a ddygwyd ymlaen ym mlwch 26 llai unrhyw ran o'r golled honno a wrthbwyswyd yn erbyn yr elw ym mlwch 25. Os gwnaethoch golled net (mae swm negyddol ym mlwch 25), nodwch ym mlwch 32 gyfanswm y golled ym mlwch 25 yn ogystal ag unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach ym mlwch 26, llai unrhyw symiau a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm ym mlwch 31. Bydd angen y ffigur ym mlwch 32 arnoch er mwyn cwblhau'r tudalennau *Tramor* ar ffurflen dreth y flwyddyn nesaf.

Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall

Cwblhewch yr adran hon os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar incwm neu enillion a gofnodwyd mewn man arall ar eich ffurflen dreth gan gynnwys incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu mewn gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Os ydych yn derbyn incwm drwy fod yn aelod o Lloyd's, gweler Taflen Gymorth 240 *Lloyd's underwriters* am arweiniad ar sut i gwblhau'r rhan hon o'r tudalennau *Tramor*.

Colofn A

Nodwch god y wlad o ble'r deilliodd eich incwm a lle'r didynnwyd treth dramor. Mae codau'r gwledydd neu'r tiriogaethau'n dechrau ar dudalen FN 19 y nodiadau hyn.

Colofn C

Nodwch swm y dreth dramor a dalwyd mewn sterling.

Colofn F

Nodwch swm gros yr incwm (cyn didynnu unrhyw dreth) a gofnodwyd gennych mewn man arall ac a dalwyd treth dramor arno.

Rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich ffurflen dreth neu ar atodlen ar wahân yn dynodi ymhle y cafodd yr incwm hwn ei gynnwys ar eich ffurflen dreth (er enghraifft ar dudalen *Cyflogaeth* ac os ar fwy nag un dudalen pa un, tudalennau *Hunangyflogaeth, Partneriaethau, Ymddiriedolaethau ac ati neu Grynodeb o Enillion Cyfalaf*.

Os oes gennych fusnes yn y DU ac mae derbyniadau gros y busnes yn cynnwys incwm yr ydych wedi talu treth dramor arno, bydd angen i chi gyfrifo swm yr elw cyflawn a ddaeth o dderbyniadau tramor.

Os ydy ffynhonnell yr incwm yn deillio o gangen tramor busnes a sefydlwyd yn y DU, nodwch yr elw gros a enillwyd gan y gangen yng ngholofn F a chadwch gopi o gyfrifon y gangen oherwydd gallem ofyn i chi am gopi.

Mewn rhai amgylchiadau, os ydy cyfnod sail y busnes ar gyfer 2010-11 yn gorgyffwrdd gyda'ch cyfnod sail ar gyfer 2009-10, efallai y gallwch hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar yr elw am y cyfnod gorgyffwrdd er y gallai rhyddhad am yr un dreth fod wedi ei ganiatáu wrth gyfrifo eich rhwymedigaeth treth ar gyfer 2009-10. Mae fwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 260 *Overlap*.

Enillion cyfalaf – rhyddhad credyd treth dramor a Threth Ataliedig Arbennig

Os oes gennych ennill o wlad dramor pan ddidynnwyd treth dramor ac rydych am hawlio rhyddhad credyd treth dramor, cwblhewch flychau 33 i 40 fel y bo'n briodol. Sylwer fodd bynnag nad yw blychau 34 i 36 bellach yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn dilyn newid yn y ffordd y mae swm y rhyddhad credyd treth dramor sydd ar gael ar gyfer ei osod yn erbyn treth y DU ar enillion cyfalaf penodol yn cael ei gyfrifo. Dylid cofnodi enillion a threth dramor mewn sterling. Os oes gennych fwy nag un ennill, yna rhowch yr wybodaeth y gofynnir amdani ym mlychau 33 i 40 ar gyfer pob ennill, ar atodlen ar wahân. Dylid nodi'r cyfansymiau ar gyfer yr holl enillion a'r dreth dramor a dalwyd (blychau 33 a 37) ar y tudalennau *Tramor*.

Os ydych am hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer unrhyw dreth dramor a dalwyd ar unrhyw enillion cyfalaf, rhowch 'X' ym mlwch 38. Byddwn yn cyfrifo'r swm sy'n ddyledus cyhyd â'ch bod wedi cwblhau'r blychau priodol (ac atodlen ychwanegol os bydd angen) ac wedi dychwelyd eich ffurflen dreth wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau priodol. Os byddwch yn cyfrifo'r rhyddhad credyd treth dramor eich hun nodwch y swm rydych yn ei hawlio ym mlwch 39. Mae Taflen Gymorth 261 *Foreign tax credit relief: capital gains* yn rhoi mwy o wybodaeth.

Petai ennill, sy'n deillio o dderbyniadau trafodyn, yn ennill trethadwy ac yn agored i Dreth Enillion Cyfalaf ac wedi cael Treth Ataliedig Arbennig wedi ei didynnu gan un o'r tiriogaethau a restrwyd ar dudalen FN 4, yna nodwch y cyfanswm ym mlwch 40.

Incwm ac enillion tramor eraill

Blwch 41 ***Enillion wrth waredu daliadau mewn cronfeydd alltraeth (ac eithrio'r symiau a nodwyd ym mlwch 13) ac incwm dewisol o ymddiriedolaethau dibreswyl***

Efallai y bydd angen i chi gofnodi manylion yn y blwch hwn os ydych wedi gwaredu buddiant mewn cronfa alltraeth. Gall y rheolau mewn perthynas â hyn fod yn gymhleth. Rydym wedi cyhoeddi arweiniad yn Llawlyfr *Offshore Funds* a Llawlyfr *Savings and Investments* (ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am *manuals* drwy ddefnyddio'r cyfleuster chwilio) neu fel arall dylech ofyn i'ch cynghorydd treth. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg cyffredinol yn unig.

Diffinnir y term 'cronfa alltraeth' yn neddfwriaeth dreth y DU; yn fras mae cronfa o'r fath yn gynllun buddsoddi pan nad yw'r ymddiriedolwyr neu'r gweithredwyr yn preswylio yn y DU (er enghraifft, mae ymddiriedolaethau uned a weithredir o dan gyfreithiau Jersey a SICAVs Gwlad Belg yn gronfeydd alltraeth). Heblaw am gwmnïau buddsoddi penagored, nid yw cwmnïau dibreswyl yn gyffredinol yn gronfeydd alltraeth, ond dylech wirio hyn gyda rheolwr y gronfa neu eich cynghorydd treth.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, mae enillion sy'n codi trwy waredu daliadau mewn cronfeydd alltraeth yn agored i dreth fel incwm yn lle cael eu trethu fel enillion cyfalaf. Os mai dyna'r achos, dylech nodi swm yr ennill ym mlwch 41. Os nad dyna'r achos, rhowch fanylion y gwaredu a'r ennill neu'r golled yn y tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf*.

Dylech nodi unrhyw incwm a gewch o gronfa alltraeth ar dudalennau F 2 a F 3.

Os derbynioch incwm ar ffurf taliad o ymddiriedolaeth ddibreswyl, mae Taflen Gymorth 262 *Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts* yn rhoi gwybodaeth bellach ar sut i gwblhau'r blwch hwn.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 42 ***Os derbynioch fudd oddi wrth berson sydd dramor, nodwch y gwerth neu'r taliad a gafwyd***

Os oes rhywun arall wedi trosglwyddo, neu wedi bod yn rhan o drefniant trosglwyddo asedion, ac o ganlyniad mae incwm wedi dod yn daladwy i berson sydd dramor, gallai gwerth y taliad neu unrhyw fudd arall a gewch gael ei drin fel eich incwm chi at ddibenion treth. Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi (a byddwch yn gwybod os yw'n berthnasol), mae Taflen Gymorth 262 *Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts* yn rhoi fwy o wybodaeth ynghylch sut i gwblhau'r blwch hwn.

Blychau 43 i 45 ***Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbryniant cyfalaf tramor***

Cwblhewch flychau 43 i 45 os gwnaethoch ennill ar ddigwyddiad trethadwy ar bolisi yswiriant bywyd tramor, polisi adbryniant cyfalaf tramor neu flwydd-dal bywyd tramor. Peidiwch â chynnwys ym mlwch 43 unrhyw swm/symiau a gynhwyswyd gennych eisoes ym mlwch 13.

Os cawsoch dystysgrif gan eich yswiriwr sy'n dangos 'ennill ar ddigwyddiad trethadwy', yna cwblhewch y blychau hyn gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y dystysgrif oni bai fod un o'r canlynol yn berthnasol:

- nid chi yw unig berchennog y polisi (ond os ydych yn berchen y polisi ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil, dylai'r ddau ohonoch nodi hanner yr ennill)
- rydych wedi bod yn preswylio y tu allan i'r DU am ran o'r cyfnod ers trefnu'r polisi
- taloch bremiymau yr oedd eu cyfanswm yn fwy na £100,000 ar neu ar ôl 21 Mawrth 2007 i bolisi neu bolisïau mewn blwyddyn dreth a chawsoch ad-daliad ar ffurf comisiwn mewn perthynas â'r premiymau hynny neu ail fuddsoddwyd y comisiwn yn y polisi ar ffurf premiwm ychwanegol.

Os yw un o'r tair sefyllfa a ddisgrifir yn berthnasol i chi, yna bydd angen i chi ddarllen Taflen Gymorth 321 *Gains on foreign life insurance policies* cyn cwblhau blychau 43 i 45.

Mewn rhai achosion, efallai bydd yr yswiriwr wedi anfon mwy nag un dystysgrif mewn perthynas ag ennill penodol, gyda'r dystysgrif diweddarach yn dangos ffigur diwygiedig ar gyfer buddion a dalwyd neu swm yr ennill ar gyfer y digwyddiad trethadwy. Yn yr achos hwn, dylech ddefnyddio'r manylion ar y dystysgrif ddiweddarach.

Os gwnaethoch enillion ar fwy nag un polisi sydd yn union yr un peth, gallwch eu hychwanegu at ei gilydd a'u trin fel un polisi. Ond os gwnaethoch enillion o fwy nag un polisi, ac os nad ydynt yr unfath, bydd angen i chi roi manylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', ar ôl dilyn y cyngor a roddir yn Nhaflen Gymorth 321.

Os na chawsoch dystysgrif gan eich yswiriwr, yn dangos yr ennill sy'n deillio o'r digwyddiad trethadwy, bydd angen Taflen Gymorth 321 arnoch hefyd i'ch cynorthwyo i gwblhau'r blychau hyn.

Blwch 46 ***Os ydych wedi hepgor incwm o flychau 11, 13 a 42 oherwydd eich bod yn hawlio rhyddhad mewn perthynas â throsglwyddo asedion, nodwch y cyfanswm a gafodd ei hepgor***

Nid yw'r darpariaethau a ddisgrifir ym mlychau 10 i 13 a 42 yn berthnasol os gallwch ddangos mai diben y trosglwyddo ac unrhyw weithrediadau oedd yn ymwneud ag ef yn yr holl amgylchiadau oedd peidio ag osgoi treth. Ond mae rhyddhad dim ond yn ddyledus petai incwm gwirioneddol fel arall yn drethadwy. Os byddwch yn hepgor

incwm o flychau 11, 13 a 42 am y rheswm hwn, **rhaid** i chi nodi cyfanswm yr incwm a gafodd ei hepgor ym mlwch 46. **Rhaid** i chi hefyd ddarparu manylion perthnasol ac esboniad yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich ffurflen dreth, neu ar atodlen ar wahân. Dylech gynnwys manylion yr asedion a drosglwyddwyd ac unrhyw weithrediadau cysylltiol, y person dan sylw sydd dramor, amgylchiadau'r trafodion perthnasol a sail eich cais i gael eich eithrio. Mae Taflen Gymorth 262 *Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts* yn rhoi fwy o wybodaeth.

Rhestr gwledydd neu diriogaethau

Mae '√' yn yr ail golofn y rhestr isod yn dangos bod gan y DU Gytundeb Trethiant Dwbl (CTD) gyda'r wlad neu'r diriogaeth a enwyd.

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Affganistan		AFG
Albania		ALB
Algeria		DZA
Samoa Americanaidd *Gweler Nodyn G*		ASM
Andorra		AND
Angola		AGO
Anguilla		AIA
Antigwa and Barbwda	√	ATG
Yr Ariannin	√	ARG
Armenia		ARM
Arwba		ABW
Awstralia	√	AUS
Awstria	√	AUT
Azerbaijan	√	AZE
Bahamas		BHS
Bahrain		BHR
Bangladesh	√	BGD
Barbados	√	BRB
Belarws *Gweler Nodyn A*	√	BLR
Gwlad Belg	√	BEL
Belize	√	BLZ
Benin		BEN
Bermwda		BMU
Bhwtan		BTN
Bolifia	√	BOL
Bonaire *Gweler Nodyn K*		BES
Bosnia a Hertsegofina *Gweler Nodyn B*	√	BIH
Botswana	√	BWA
Brasil		BRA
Ynysoedd British Virgin		VGB
Brunei Darussalam	√	BRN
Bwlgaria	√	BGR
Burkino Faso		BFA
Burma (a elwir hefyd yn Myanmar)	√	MMR
Bwrwndi		BDI
Cambodia		KMH
Camerŵn		CMR
Canada	√	CAN
Cape Verde		CPV
Ynysoedd Caiman		CYM
Gweriniaeth Canol Affrica		CAF

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Tsiad		TCD
Tsile	√	CHL
Tsieina	√	CHN
Ynys y Nadolig *Gweler Nodyn D*	√	CXR
Ynysoedd Cocos (Keeling) *Gweler Nodyn D*	√	CCK
Colombia		COL
Comoros		COM
Congo		COG
Ynysoedd Cook		COK
Costa Rica		CRI
Côte d'Ivoire	√	CIV
Croatia *Gweler Nodyn B*	√	HRV
Cwba		CUB
Curaçao *Gweler Nodyn J*		CUW
Cyprus	√	CYP
Y Weriniaeth Tsiec *Gweler Nodyn C*	√	CZE
Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (Zaire gynt)		COD
Denmarc	√	DNK
Djibouti		DJI
Dominica		DMA
Gweriniaeth Dominica		DOM
Ecwador		ECU
Yr Aifft	√	EGY
El Salvador		SLV
Gini Trofanol		GNQ
Eritrea		ERI
Estonia	√	EST
Ethiopia		ETH
Ynysoedd Ffaröe	√	FRO
Ynysoedd y Falkland	√	FLK
Fiji	√	FJI
Y Ffindir	√	FIN
Ffrainc	√	FRA
Giana Ffrengig *Gweler Nodyn E*	√	GUF
Polynesia Ffrengig *Gweler Nodyn F*		PYF
Gabon		GAB
Gambia	√	GMB
Georgia	√	GEO
Yr Almaen	√	DEU
Ghana	√	GHA
Gibraltar		GIB

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Gwlad Groeg	√	GRC
Yr Ynys Las		GRL
Grenada	√	GRD
Guadeloupe *Gweler Nodyn E*	√	GLP
Gwam *Gweler Nodyn G*		GUM
Gwatemala		GTM
Guernsey	√	GGY
Gini		GIN
Gini-Bissau		GNB
Gaiana	√	GUY
Haiti		HTI
Hondwras		HND
Hong Kong (SAR)		HKG
Hwngari	√	HUN
Gwlad yr lâ	√	ISL
India	√	IND
Indonesia	√	IDN
Iran		IRN
Irac		IRQ
Gweriniaeth Iwerddon	√	IRL
Ynys Manaw	√	IMN
Israel	√	ISR
Yr Eidal	√	ITA
Jamaica	√	JAM
Japan	√	JPN
Jersey	√	JEY
Yr Iorddonen	√	JOR
Kazakhstan	√	KAZ
Cenia	√	KEN
Ciribati	√	KIR
Coweit	√	KWT
Kyrgyzstan		KGZ
Laos		LAO
Latfia	√	LVA
Libanus		LBN
Lesotho	√	LSO
Liberia		LBR
Libya	√	LBY
Liechtenstein		LIE
Lithwania	√	LTU
Lwcsembwrg	√	LUX
Macao (SAR)		MAC
Macedonia (FYR)	√	MKD
Madagascar		MDG
Malaŵi	√	MWI
Maleisia	√	MYS

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Maldives		MDV
Mali		MLI
Malta	√	MLT
Ynysoedd Marshall		MHL
Martinique *Gweler Nodyn E*	√	MTQ
Mawritania		MRT
Mawrisiws	√	MUS
Mayotte *Gweler Nodyn F*		MYT
Mecsico	√	MEX
Micronesia		FSM
Moldofa	√	MDA
Monaco		MCO
Mongolia	√	MNG
Montenegro *Gweler Nodyn B*	√	MNE
Montserrat	√	MSR
Morocco	√	MAR
Mosambîc		MOZ
Namibia	√	NAM
Nawrw		NRU
Nepal		NPL
Yr Iseldiroedd	√	NLD
Antilles yr Iseldiroedd *Gweler Nodyn L*		ANT
Caledonia Newydd *Gweler Nodyn F*		NCL
Seland Newydd	√	NZL
Nicaragwa		NIC
Niger		NER
Nigeria	√	NGA
Niue		NIU
Ynysoedd Norfolk *Gweler Nodyn D*	√	NFK
Gogledd Corea		PRK
Ynysoedd Gogledd Mariana *Gweler Nodyn G*		MNP
Norwy	√	NOR
Oman	√	OMN
Pacistan	√	PAK
Palau		PLW
Panama		PAN
Papwa Gini Newydd	√	PNG
Paragwâi		PRY
Perw		PER
Ynysoedd y Philipinau	√	PHL
Ynys Pitcairn		PCN
Gwlad Pwyl	√	POL
Portiwgal	√	PRT
Puerto Rico *Gweler Nodyn G*		PRI
Qatar		QAT
Reunion *Gweler Nodyn E*	√	REU

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Romania	√	ROU
Ffederasiwn Rwsiaidd	√	RUS
Rwanda		RWA
St. Helena a'i Dibyniaethau		SHN
St. Kitts a Nevis	√	KNA
St. Lucia		LCA
St. Pierre a Miquelon *Gweler Nodyn F*		SPM
St. Vincent a'r Grenadines		VCT
Saba *Gweler Nodyn K*		BES
Samoa		WSM
San Marino		SMR
Sao Tome a Principe		STP
Saudi Arabia		SAU
Senegal		SEN
Serbia *Gweler Nodyn B*	√	SRB
Seychelles		SYC
Sierra Leone	√	SLE
Singapore	√	SGP
Sint Eustatius *Gweler Nodyn K*		BES
Sint Maarten (y rhan Iseldiraidd) *Gweler Nodyn J*		SXM
Gweriniaeth Slofacia *Gweler Nodyn C*	√	SVK
Slofenia	√	SVN
Ynysoedd Solomon	√	SLB
Somalia		SOM
De Affrica	√	ZAF
De Corea	√	KOR
Sbaen	√	ESP
Sri Lanka	√	LKA
Swdan	√	SDN
Swrinam		SUR
Ynysoedd Svalbard a Jan Mayen *Gweler Nodyn H*		SJM
Swaziland	√	SWZ
Sweden	√	SWE

Gwlad neu diriogaeth	CTD	cod 3 llythyren
Y Swistir	√	CHE
Syria		SYR
Taiwan	√	TWN
Tajikistan *Gweler Nodyn A*	√	TJK
Tansanïa		TZA
Gwlad Thai	√	THA
Timor-Leste		TLS
Togo		TGO
Tokelau		TKL
Tonga		TON
Trinidad a Tobago	√	TTO
Tiwnisia	√	TUN
Twrci	√	TUR
Turkmenistan *Gweler Nodyn A*	√	TKM
Ynysoedd Twrcs a Caicos		TCA
Twfalw	√	TUV
Wganda	√	UGA
Wcráin	√	UKR
United Arab Emirates		ARE
Y Deyrnas Unedig		GBR
Unol Daleithiau America	√	USA
Ynysoedd Virgin yr Unol Daleithiau *Gweler Nodyn G*		VIR
Wrwgwái		URY
Wsbecistan	√	UZB
Vanuatu		VUT
Y Fatican		VAT
Feneswela	√	VEN
Fiet-nam	√	VNM
Ynysoedd Wallis a Futuna *Gweler Nodyn F*		WLF
Yemen		YEM
Sambia	√	ZMB
Simbabwe	√	ZWE
Dim un o'r uchod *Gweler Nodyn M*		ZZZ

Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu rhannau o ISO 3166-3:1999 gan BSI ar ran yr ISO. Ni chaniateir defnydd arall o'r deunydd hwn. Gellir cael Safonau Prydeinig ar ffurf PDF neu ar ffurf copi caled o siop ar-lein y BSI: http://shop.bsigroup.com neu drwy gysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid ar gyfer copïau caled yn unig: Ffon: +44 (0)20 8996 9001 : E-bost: cservices@bsigroup.com

Nodiadau

A

Mae'r hawliad yn parhau o dan Gytundeb Trethiant Dwbl yr oedd gan y DU â'r Undeb Sofietaidd gynt tan yr adeg y daw Cytundeb Trethiant Dwbl newydd i rym.

B

Mae'r hawliad yn parhau o dan Gytundeb Trethiant Dwbl yr oedd gan y DU ag Iwgoslafia gynt tan yr adeg y daw Cytundeb Trethiant Dwbl newydd i rym.

C

Yn gyffredinol mae'r hawliad yn parhau o dan Gytundeb Trethiant Dwbl yr oedd gan y DU â Tsiecoslofacia gynt.

D

Mae'r tiriogaethau hyn yn rhan o Awstralia, yn yr ystyr daearyddol, at ddibenion y Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU ac Awstralia. Fodd bynnag, gallai dilysrwydd pob hawliad neilltuol o dan y Cytundeb Trethiant Dwbl ddibynnu ar p'un a ydych yn breswylydd yn Awstralia at ddibenion treth Awstralia.

E

Mae'r tiriogaethau hyn yn 'departements d'outre-mer' ac felly fe'u hystyrir fel rhan annatod o Ffrainc at ddibenion y Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU a Ffrainc.

F

Nid yw'r tiriogaethau hyn wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU a Ffrainc.

G

Nid yw'r tiriogaethau hyn wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU ac Unol Daleithiau'r America.

H

Mae Teyrnas Norwy yn cynnwys y tiriogaethau hyn, ond nid ydynt yn rhan o Norwy at ddibenion y Cytundeb Trethiant Dwbl rhwng y DU a Norwy.

J

Diddymwyd Antilles yr Iseldiroedd ar 10 Hydref 2010 ac ar yr adeg honno daeth yr ynysoedd hyn yn wledydd cyfansoddol Teyrnas yr Iseldiroedd. Mae Saint Martin (y rhan Ffrengig) yn gyfundeb dramor o Ffrainc ac un o ranbarthau pellaf yr Undeb Ewropeaidd.

K

Diddymwyd Antilles yr Iseldiroedd ar 10 Hydref 2010 ac ar yr adeg honno daeth yr ynysoedd hyn yn gyrff cyhoeddus, neu fwrdeistrefi arbennig Teyrnas yr Iseldiroedd. Maent yn parhau'n wledydd a thiriogaethau tramor yr Undeb Ewropeaidd.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

L

Gweler nodiadau J a K.

M

Rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich ffurflen dreth ar gyfer y cofnod ZZZ 'Dim un o'r uchod'.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar eich hawl i apelio. Gellir dod o hyd i unrhyw newidiadau dilynol i'r nodiadau hyn yn **www.hmrc.gov.uk**